**Ffilm Cymru Wales**
**Swydd-ddisgrifiad: Cydlynydd Talent**

Dyma'r pecyn gwybodaeth ar gyfer swydd:

**Cydlynydd Talent**

Caiff y wybodaeth ganlynol ei darparu i'ch cynorthwyo â'ch cais. Mae rhagor o wybodaeth am Ffilm Cymru ar gael fan yma: [www.ffilmcymruwales.com](http://www.ffilmcymruwales.com)

## Cynnwys


**Croeso .......... 2**
**Sut i Wneud Cais .......... 2**
Amrywiaeth, Cynhwysiant a Chymorth Mynediad .......... 3
Rhannu Swydd a Gweithio Hyblyg .......... 4
Ar ôl i chi wneud cais .......... 4
**Swydd-ddisgrifiad Llawn .......... 6**
Nodau'r Swydd .......... 6
Cyfrifoldebau Llawn .......... 7
**Gofynion Sylfaenol ar gyfer y Swydd .......... 8**
Gwybodaeth a Phrofiad .......... 8
Sgiliau ac Ymagwedd .......... 8
**Dymunol .......... 9**
**Ffilm Cymru Wales .......... 10**

# Croeso

Diolch am eich diddordeb yn y swydd hollbwysig hon i gefnogi'r Adran Dalent. Mae Ffilm Cymru yn gwmni uchelgeisiol i weithio iddo gyda thîm cyfeillgar.

Er bod llawer o'r hyn a wnawn yn canolbwyntio ar fanylion ffilmiau unigol sy'n cael eu datblygu a'u cynhyrchu a gyrfaoedd awduron, cyfarwyddwyr neu gynhyrchwyr o Gymru, nid cronfa ffilmiau yn unig ydyn ni. Mae rôl unigryw Ffilm Cymru fel asiantaeth datblygu sector yn golygu ein bod bob amser, ym mhopeth a wnawn, yn ystyried sut y gallwn adeiladu sector sy’n fwy cynaliadwy, cynhwysol ac entrepreneuraidd. Gallwch weld hyn yn ein rhaglen Cymru Werdd, ein rhaglen hyfforddi lwyddiannus - Troed yn y Drws - a hyd yn oed yn y ddarpariaeth ar gyfer gofal plant o fewn ein cyllidebau datblygu prosiect.

Gallwch ddisgwyl i'r gwaith fod yn amrywiol a boddhaus. Os ydych chi'n drefnus ac yn awyddus i ddysgu mwy am ddiwydiant ffilmiau nodwedd yna gallai'r swydd hon fod yn addas i chi!

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.
*Kim Warner, Pennaeth Cynhyrchu*

# Sut i Wneud Cais

Oni bai ein bod wedi cytuno ar fformat arall o gais gyda chi, dylech anfon CV a llythyr eglurhaol mewn e-bost i Kim Warner - applications@ffilmcymruwales.com - yn nodi pryd rydych chi ar gael ac yn dangos yn glir sut mae eich profiad a'ch sgiliau yn bodloni'r Gofynion Sylfaenol a manyleb y swydd sydd wedi’i nodi yn y pecyn hwn.

Defnyddiwch y pennawd: Swydd Cydlynydd Talent.

Cyflwynwch eich cais erbyn **hanner dydd, dydd Gwener 1 Tachwedd 2024.**

Nid yw Ffilm Cymru yn noddwr trwyddedig ar gyfer VISAs ac felly mae'n rhaid bod eisoes gennych Hawl i Weithio yn y DU er mwyn gwneud cais am y rôl hon.

Os ydych yn ymgeisydd mewnol sy'n gweithio yn Ffilm Cymru, trafodwch gyda'ch rheolwr llinell cyn gwneud cais.

Cynhelir cyfweliadau ar **7 neu 8 Tachwedd 2024**, naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb.

## Amrywiaeth, Cynhwysiant a Chymorth Mynediad

Credwn mewn sector sgrin sy'n gweithio i bawb ac rydyn ni'n angerddol am ehangu mynediad i'r sector hwnnw.

Byddwn yn cynnig cyfweliad awtomatig i bob ymgeisydd sy'n bodloni ein Meini Prawf Gofynnol ar gyfer y swydd ac sy'n arddel hunaniaeth Pobl y Mwyafrif Byd-eang, Pobl Dduon, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol neu bobl F/fyddar, trwm eu clyw, Anabl neu niwroamrywiol.

Yn achos ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl, yn niwroamrywiol, a phobl sydd wedi colli eu golwg, mae cymorth ar gael i gyflwyno cais. Cysylltwch â ni i roi gwybod i ni sut y gallwn helpu. Er enghraifft, gallwn dalu costau dehonglydd BSL ar gyfer cyfarfod â ni cyn gwneud cais, cymorth ysgrifennu i

ymgeiswyr dyslecsig, neu gytuno ar fformatau gwahanol ar gyfer gwneud cais fel ceisiadau fideo neu ddec sleidiau. Cawn ein harwain gennych chi.

Cysylltwch ag Ihsana Feldwick - **ihsana@ffilmcymruwales.com** - i drafod eich gofynion cyn gwneud cais.

## Rhannu Swydd a Gweithio Hyblyg

Rydym yn agored i gynigion gweithio hyblyg ond ni fyddai rhannu swydd yn bosibl yn y swydd hon am mai swydd deuddydd yr wythnos yw hi. Rhowch fanylion yr hyn rydych chi'n ei gynnig o ran gweithio hyblyg yn eich llythyr eglurhaol os yw'n berthnasol. Mae'n bosibl y bydd angen gweithio rhywfaint ar y penwythnos neu gyda'r nos (gyda rhybudd priodol) os bydd digwyddiadau'n digwydd yn ystod y cyfnod hwnnw, a bydd TOIL (amser sy'n ddyledus) yn cael ei gronni.

## Ar ôl i chi wneud cais

Byddwch yn derbyn cadarnhad bod eich cais wedi'i dderbyn o fewn wythnos i'w gyflwyno a chewch ddolen i ffurflen monitro amrywiaeth, sy'n ein helpu yn ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant. Mae gan bob cwestiwn opsiwn 'gwell gen i beidio â dweud'. I gael gwybodaeth am sut mae Ffilm Cymru yn prosesu data ymgeiswyr, gweler ein Polisi Preifatrwydd.

Cewch glywed a ydych wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad o fewn pythefnos i ddyddiad cau'r cais.

Byddwn yn cynnig cyfweliad awtomatig i bob ymgeisydd sy'n bodloni ein Meini Prawf gofynnol ar gyfer y swydd ac sy'n arddel hunaniaeth Pobl y Mwyafrif Byd-eang, Pobl Dduon, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol neu bobl F/fyddar, trwm eu clyw, Anabl neu niwroamrywiol.

Yn achos ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl, yn niwroamrywiol, a phobl sydd wedi colli eu golwg, mae cymorth ar gael. Cysylltwch ag Ihsana@ffilmcymruwales.com.

## Swydd-ddisgrifiad Llawn

**Adran:** Datblygu, Cynhyrchu a Sgiliau
**Swydd:** Cydlynydd Talent rhan-amser, tymor penodol hyd at 31 Mawrth 2025 (rhan-amser 2 ddiwrnod yr wythnos neu gyfwerth, wedi'i amserlennu yn ôl dymuniad yr ymgeisydd)
**Yn adrodd i:** Rheolwr Datblygu Talent
**Lleoliad:** Cymru. Dylai'r ymgeisydd fod o fewn pellter cymudo i Gaerdydd oherwydd natur y gwaith ond mae potensial i weithio o bell ar adegau.
**Dyddiadau'r cyfweliadau:** 7 neu 8 Tachwedd ar-lein neu wyneb yn wyneb. Cadarnhewch ar eich ffurflen gais os na allwch fod yn bresennol i'r naill neu'r llall o'r dyddiadau hyn.
**Cyflog:** £24,750 y flwyddyn wedi'i addasu pro-rata ynghyd â phensiwn a 28 diwrnod o wyliau yn ogystal â Gwyliau Cyhoeddus, tâl salwch ac absenoldeb rhiant.
**Sut i wneud cais:** Oni bai ein bod wedi cytuno ar fformat arall gyda chi i gyflwyno cais, dylech anfon CV a llythyr eglurhaol mewn e-bost i applications@ffilmcymruwales.com yn amlinellu eich argaeledd a'ch profiad a'ch sgiliau yn erbyn y Gofynion Sylfaenol sydd wedi'u hamlinellu yn y swydd-ddisgrifiad.
**Dyddiad cau:** Dydd Gwener 1 Tachwedd 2024 am hanner dydd

### Nodau'r Swydd

Cefnogi'r Rheolwr Datblygu Talent gyda'r gwaith gweinyddol sy'n ymwneud â'n gweithgarwch datblygiad proffesiynol parhaus, sy'n cwmpasu cymorthfeydd cyngor un i un,

dirprwyaethau mewn gwyliau, digwyddiadau arddangos talent a labordai hyfforddi ar raddfa fwy.

**Cyfrifoldebau Llawn**

- Bod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau i’r adran yn ymwneud â’n gweithgarwch datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) i wneuthurwyr ffilmiau
- Gwneud trefniadau teithio, arlwyo, lleoliadau a llety a gwneud trefniadau eraill yn ymwneud â'n gweithgarwch DPP
- Trefnu a chofnodi cyfarfodydd gwneud penderfyniadau
- Ffeilio a chydgrynhoi data sy’n ymwneud â’r uchod er mwyn adrodd i’n rhanddeiliaid gan gynnwys cynnal ein system monitro amrywiaeth ochr yn ochr â Chydlynydd yr Adran
- Ffeilio deunyddiau ceisiadau a gwirio ceisiadau am wallau neu wybodaeth goll a mynd ar drywydd y wybodaeth honno drwy gyfathrebu â'r aelod perthnasol o staff
- Bod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer 'ceisiadau cymorth mynediad' gan ymgeiswyr i'n cronfeydd DPP neu geisiadau am fwrsariaeth gan gyfranogwyr yn ein gweithgarwch DPP. Mae hyn yn golygu ceisiadau am gymorth fel Iaith Arwyddion Prydain neu ofal plant, a allai fel arall atal rhywun rhag gwneud cais i ni neu gymryd rhan yn ein gweithgarwch. Byddwn yn rhoi arweiniad i chi i reoli'r ymholiadau hyn
- Cynnal calendr gweithgareddau ein cwmni i helpu i amserlennu gweithgareddau a nodi achosion o wrthdaro neu ymuno â gweithgarwch arall yn y cwmni
- Datblygu ein systemau olrhain talent a chysylltiadau yn y diwydiant
- Cynrychioli'r cwmni a darparu cymorth cyffredinol mewn unrhyw ddigwyddiadau wyneb yn wyneb a drefnwn

- Cynorthwyo o ran y cyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo gweithgarwch
- Cyflawni’r holl gyfrifoldebau mewn ffordd sy’n cefnogi gwerthoedd Ffilm Cymru ac yn hybu cynaliadwyedd, cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn Ffilm Cymru a’r sector ehangach.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill y gall eich rheolwr llinell ofyn yn rhesymol amdanynt neu eu dirprwyo.

## Gofynion Sylfaenol ar gyfer y Swydd

### Gwybodaeth a Phrofiad

- Profiad o ddefnyddio Microsoft Office Suite, Zoom a Teams.
- Profiad proffesiynol o ymdrin â thasgau gweinyddol fel codi archebion prynu, trefnu arlwyo a llogi lleoliad, trefniadau teithio a rheoli dyddiadur
- Profiad proffesiynol o gydlynu digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb ac adrodd i gyllidwyr (arianwyr cyhoeddus yn ddelfrydol)

### Sgiliau ac Ymagwedd

- Brwdfrydedd dros ffilmiau annibynnol a ffilmiau dogfen i’r sinema.
- Sgiliau trefnu da a'r gallu i flaenoriaethu a rheoli a bodloni terfynau amser.
- Yn canolbwyntio ar fanylion.

- Sgiliau cyfathrebu da mewn perthynas â chyfathrebu â gwneuthurwyr ffilmiau a rheoli prosiectau mewnol.

## Dymunol

- Dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu'r rhai sydd â diddordeb mewn cychwyn neu gynnal gyrfa yn y diwydiannau creadigol
- Profiad proffesiynol o ddarparu cymorth mynediad i'r rhai sy'n nodi eu bod yn F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl neu'n niwroamrywiol.
- Profiad proffesiynol o weithio ar ddigwyddiadau a hyfforddiant yn ymwneud â diwydiannau'r sgrin.
- Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg.

# Ffilm Cymru Wales

Ffilm Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilmiau yng Nghymru ac rydym wedi ymrwymo i hybu sector ffyniannus y gallwn oll fod yn falch o ddweud ei bod yn perthyn i ni. Dyma sut y gwnawn hyn:

- Gweithio gyda phartneriaid i hybu safle byd ffilm yng Nghymru a thu hwnt
- Creu amgylchedd lle gall ffyrdd o weithio sy'n fwy cynhwysol, arloesol a gwyrdd gael eu profi, eu hintegreiddio a'u rhannu
- Datblygu gweithlu sgrin i'r dyfodol drwy amryw raglenni hyfforddiant
- Buddsoddi mewn ffilmiau anarferol a rhai sy'n cymryd risgiau a'u gwneuthurwyr o gam cynnar
- Cynnig profiadau sinematig cyffrous i gynulleidfaoedd ar hyd a lled Cymru

Rydym yn rheoli arian y Loteri Genedlaethol ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad Ffilm Prydain, yn ogystal â chyllid gan Lywodraeth Cymru drwy Gymru Greadigol. Mae ein gwaith yn cyd-fynd yn agos â Rhaglen Llywodraeth Cymru, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, oherwydd cymysgedd creadigol, economaidd a diwylliannol ein sector.

Sefydlwyd Ffilm Cymru yn 2006 ac mae'n Gwmni Buddiannau Cymunedol. Yn 2018 lansiwyd ein Cynllun Strategol 2018 -2024, sydd ar gael i'w ddarllen fan yma.